

Gwneud i'ch Dysgu Gyfrif YXM130

Patrwm cyflwyno – O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae YXM130 yn fodiwl lefel 1/istraddedig lefel 4 30 o gredydau Y Brifysgol Agored. Gall myfyrwyr gyfrif astudiaethau blaenorol neu astudiaethau presennol o wefan dysgu am ddim Y Brifysgol Agored, [OpenLearn](#), neu adnoddau addysgol agored penodol eraill (megis FutureLearn, Coursera ac ati) a gwaith dysgu arall tuag at dystysgrif, diploma neu radd Agored. Drwy gyfres o bynciau a thasgau asesu, bydd y myfyrwyr yn archwilio'r hyn y maent wedi'i ddysgu fel rhan o'r adnoddau addysgol agored hyn, gan feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn fyfyrwr llwyddiannus ar yr un pryd. Y myfyrwyr fydd yn dewis y cyfuniad o bynciau, sy'n gwneud y profiad dysgu hwn yn un cwbl bersonol. Bydd tiwtor yn helpu'r myfyrwyr i gynllunio eu hastudiaeth ac yn nodi'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni drwy'r modiwl hwn a'u cynlluniau astudio ar gyfer y dyfodol gyda chymorth un i un gan diwtor. Mae'r modiwl yn helpu myfyrwyr i archwilio'r hyn sy'n digwydd pan fyddant yn dod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dysgu gwahanol ynghyd.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol (noder y caiff y ffurflen cefndir ethnig ei gwahanu o'ch cais).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r fanyleb person gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad blaenorol o addysgu ar-lein o bell mewn lleoliad addysg uwch
- y gallu i addysgu o fewn ac ar draws ystod eang o lwyfannau a chyfryngau dysgu ac addysgu, gan gynnwys addysgu gan ddefnyddio gwefannau modiwl, technolegau cydamseredig, o fewn fforymau ar-lein, a dros y ffôn.
- gallu amlwg i helpu dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau astudio a'u paratoi ar gyfer astudio pellach
- gallu amlwg i addysgu amrywiaeth eang o bynciau, y gall rhai ohonynt fod y tu hwnt i'ch arbenigedd personol
- dealltwriaeth o anghenion myfyrwyr sy'n dod o gefndiroedd amrywiol, y gall rhai ohonynt fod yn astudio am y tro cyntaf, at nifer o ddibenion gwahanol sy'n symud o ddysgu anffurfiol i ddysgu ffurfiol
- profiad o gefnogi dysgu mewn cyd-destun amlddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: 30

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: 1 aseiniad wedi'i farcio gan diwtor, 5 tasg asesu ac 1 asesiad diwedd modiwl

Dull cyflwyno aseiniadau: 2

Lefel y gofynion TGCh: 3

Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: 15

Band cyflog: 6

Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: 8